



Y Coleg Cymunedol Cenedlaethol
The National Community College

Cwestiynau Cyffredin:
Pryderon ynghylch Coronafeirws



Coronafeirws: Cwestiynau Cyffredin

Mae'r dudalen hon yn cynnwys cwestiynau cyffredin ynghylch coronafeirws ar gyfer staff a dysgwyr.

Bydd yn cael ei diweddarau'r rheolaidd wrth i'r cyngor newid, felly cofiwch droi at y dudalen yn rheolaidd i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Cwestiynau Cyffredinol

Beth yw coronafeirws?

Mae coronafeirws yn fath o feirws. Fel grŵp, mae coronafeirysau yn gyffredin ledled y byd.

Mae symptomau nodweddiadol coronafeirws yn cynnwys twymyn a pheswch a allai ddatblygu'n niwmonia difrifol gan achosi diffyg anadl ac anawsterau anadlu.

Yn gyffredinol, gall coronafeirws achosi symptomau mwy difrifol yn achos pobl sydd â systemau imiwnedd gwan, pobl hŷn, a'r sawl sydd â chyflyrau tymor hir megis diabetes, canser a chlefyd cronig yr ysgyfaint.

Mae coronafeirws newydd (COVID-19) yn fath newydd o goronafeirws a gafodd ei ddarganfod gyntaf yn Ninas Wuhan, Tsieina.

Sut mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn monitro ac yn ymateb i'r achos o Goronafeirws?

Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa a byddwn yn ymateb i gyngor ac arweiniad swyddogol pan gyhoeddir hynny. Rydym yn parhau i fod mewn cysylltiad agos ag lechyd Cyhoeddus Cymru a chyrrff swyddogol eraill y llywodraeth.

A yw'r cyrsiau yn dal i redeg?

Mae addysgu wyneb yn wyneb wedi'i atal nes clywir yn wahanol.

Gall dysgwyr sy'n cyfranogi mewn rhai cyrsiau i ennill cymwysterau gyflawni elfennau o ddysgu hunangyfeiriedig trwy gyfrwng ein platfform Moodle. Bydd eich tiwtor yn darparu cymorth ar-lein gan ddefnyddio'r cyfleusterau sgwrsio a fforwm.

Rydym ni wrthi ar hyn o bryd yn datblygu rhagor o gyfleoedd dysgu ar-lein. Gallwch ddisgwyl cael rhagor o ddiweddariadau gan y sefydliad neu eich tîm rhanbarthol.

A yw swyddfeydd Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales ar agor?

Mae ein holl swyddfeydd bellach wedi cau hyd nes hysbysir yn wahanol. Bydd ein holl staff yn gweithio gartref a bydd y sefydliad yn parhau ar agor i ddarparu cymorth a gwybodaeth yn rheolaidd i ddysgwyr a phartneriaid trwy gyfrwng cyfleusterau mynediad o bell. Cofiwch droi at ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i gael rhagor o ddiweddariadau.

A allaf i ymweld ag un o swyddfeydd Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales?

Mae ein holl swyddfeydd bellach wedi cau hyd nes hysbysir yn wahanol.

Mae arnaf i angen postio rhywbeth at Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales; ble ddylwn i anfon hynny?

Mae holl swyddfeydd AOC | ALW bellach wedi cau hyd nes hysbysir yn wahanol. Daliwch sylw: efallai na fyddwn ni wedi derbyn gohebiaeth sydd wedi'i hanfon i'n swyddfeydd.

Os ydych chi wedi postio rhywbeth na fyddai wedi'n cyrraedd ni cyn 23 Mawrth ac mae angen sylw brys iddo, e-bostiwch ni yn Gweinyddwr Cymorth Rhanbarthol.

Os oes angen i chi anfon rhywbeth atom ni ar frys, y ffordd orau o wneud hyn yw sganio neu dynnu llun o'r ddogfen ac anfon hynny at dîm eich Gweinyddwr Cymorth Rhanbarthol priodol.

Rwy'n bryderus iawn, beth allaf i ei wneud?

Mae hwn yn gyfnod pryderus i bawb. Mae'r gwefannau dilynol gan y Llywodraeth a sefydliadau lechyd y Cyhoedd yn darparu'r cyngor a'r arweiniad diweddaraf:

<https://www.gov.uk/government/topical-events/coronavirus-covid-19-uk-government-response>

<https://phw.nhs.wales/>

Adnoddau hunanasesu'r GIG:

<https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/SelfAssessments/symptomcheckers/?ScName=CoronaVirusCOVID19&SCTId=175>

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau penodol ynghylch eich dysgu neu eich cyflogaeth, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Pwy allaf i droi ato yn Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i ofyn am gyngor ynghylch Coronafeirws?

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Coronafeirws ar gael [yma](#).

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau cyffredinol am eich cyflogaeth, cysylltwch â'ch rheolwr llinell neu aelod o'r tîm adnoddau dynol yn hr-general@adultlearning.wales

Dylai dysgwyr gysylltu â'u swyddfa ranbarthol yn y lle cyntaf. Daliwch sylw: efallai y cewch chi neges peiriant ateb yn y lle cyntaf. Gadewch neges i ni ac fe wnawn ni gysylltu â chi cyn gynted ag y bo modd. Fel arall, e-bostiwch ni yn info@adultlearning.wales. Mae cymorth a chynngor ar gael gan y tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr hefyd. Ffoniwch 03300 580845 a gadewch neges; cysylltir â chi cyn gynted ag y bo modd.

Rwy'n bwriadu teithio dramor yn ystod yr wythnosau nesaf. Beth ddylwn i ei wneud?

Mae'r cynngor diweddaraf ar gael yn <https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus>

A ddylwn i wisgo masg wyneb?

Trowch at wefannau'r Llywodraeth a gwefannau lechyd y Cyhoedd a restrir uchod i gael y cynngor a'r arweiniad diweddaraf.

Rwyf i wedi profi ymddygiad annymunol tuag ataf i, yn ymwneud â Choronafeirws. Pwy allaf i droi ato i drafod hyn?

Bydd yn bwysig iawn i chi hysbysu rhywun o'r sefydliad os gwnewch chi brofi ymddygiad annymunol neu gamdriniaeth. Polisi Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yw peidio goddef unrhyw fath o aflonyddu a gwahaniaethu.

Nid yw'r sefydliad yn goddef ymddygiad sy'n groes i urddas a pharch ac mae'n disgwyl i bawb drin pobl eraill fel yr hoffent gael eu trin eu hunain.

Mae ein polisi ynghylch bwlio ac aflonyddu ar gael [yma](#).

A ydych chi'n trafod â cholegau eraill ynghylch rheoli'r digwyddiad hwn?

Rydym yn parhau i gydweithio â cholegau eraill trwy law corff y sector AB, Colegau Cymru | Colleges Wales, ynghyd â chydweithwyr ar draws y sector dysgu oedolion yn y gymuned, i sicrhau ein bod yn rhannu ac yn defnyddio'r wybodaeth a'r arferion gorau diweddaraf.

Byddaf yn mynychu digwyddiad a drefnir gan Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Beth ddylwn i ei wneud?

Rydym ni'n gohirio holl ddigwyddiadau'r sefydliad yn y dyfodol agos yn unol â chynngor y Llywodraeth.

A fydd dosbarthiadau Canghennau yn parhau?

Yn unol â phenderfyniad AOC | ALW' i atal yr holl addysgu wyneb yn wyneb nes clywir yn wahanol,

rydym ni hefyd yn cynghori y dylai'r holl ddsbarthiadau a drefnir gan ganghennau gael eu hatal ar yr adeg hon. Mae rhagor o wybodaeth gael gan gynrychiolydd eich Cangen.

Rwy'n dymuno helpu fy mherthnasau a fy nghymdogion sy'n ymneilltuo; beth ddylwn i ei wneud?

Rydym ni'n gefnogol iawn o unrhyw un sy'n gallu helpu pobl eraill yn ystod y cyfnod hwn, os caniateir iddynt wneud hynny ac os yw'n ddiogel gwneud hynny. Caiff ein tudalen gwybodaeth ac adnoddau ei diweddarau'n rheolaidd, ac mae'n cynnig cyngor defnyddiol ynghylch sut gallwch chi helpu pobl eraill sy'n ymneilltuo, yn enwedig y sawl sydd dros 70 mlwydd oed a/neu'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn i chi ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan Lywodraethau Cymru a'r DU a chyngor ynghylch lechyd y Cyhoedd.

Gwybodaeth ar gyfer Staff

Fel aelod o staff, a allaf i weithio o bell?

Mae ein holl swyddfeydd bellach ar gau i'n holl staff oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Mae'n ofynnol i'r holl staff weithio gartref. Os byddwch chi'n wynebu unrhyw anawsterau, neu os bydd arnoch chi angen gwybodaeth neu fynediad at offer, cysylltwch â'ch rheolwr llinell. Darllenwch y [Polisi Gweithio Gartref](#) i gael rhagor o fanylion; a chofiwch gwblhau'r asesiadau priodol o'r risgiau yn unol â'r hyn a nodir yn y polisi.

Os bydd eich rheolwr llinell yn cytuno nad yw hi'n ymarferol i chi weithio gartref, bydd eich absenoldeb yn cael ei ystyried yn absenoldeb â thâl yn sgil ymneilltuo oherwydd coronafeirws.

Rydym ni'n deall y bydd staff yn ceisio ymdopi â gweithio gartref a chyfrifoldebau gofalu ar yr un pryd, ac rydym ni'n gwerthfawrogi'r heriau sy'n gysylltiedig â hyn. Yn syml iawn, gofynnwn i staff wneud ei gorau o dan yr amgylchiadau anodd a digynsail hyn.

A allaf i barhau i fynd i'r swyddfa?

Mae holl swyddfeydd AOC | ALW bellach wedi cau hyd nes hysbysir yn wahanol.

Ble allaf i gael cyngor?

Nid yw'n ofynnol bellach i bobl sydd â symptomau ffonio GIG 111, oherwydd mae'r system dan straen, ond yn hytrach, fe'u hanogir i chwilio am wybodaeth ar wefan y GIG a gwefan 111 online.

Gall staff drafod â'u rheolwr llinell neu aelod o'r Adran Adnoddau Dynol hefyd.

Sut ddylwn i ofalu am fy iechyd fy hun?

Mae'r gwefannau dilynol gan y Llywodraeth a sefydliadau iechyd y Cyhoedd yn darparu'r cyngor a'r arweiniad diweddaraf:

<https://www.gov.uk/government/topical-events/coronavirus-covid-19-uk-government-response>

<https://phw.nhs.wales/>

Adnoddau hunanasesu'r GIG:

<https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/SelfAssessments/symptomcheckers/?ScName=CoronaVirusCOVID19&SCTId=175>

Beth os byddaf i, neu beth os bydd dibynnydd, yn dal coronafeirws?

Os byddwch chi'n datblygu symptomau'r feirws, bydd eich absenoldeb yn cael ei ystyried yn

absenoldeb oherwydd salwch, a bydd trefn hysbysu am salwch safonol y sefydliad yn gymwys. Darllenwch y [Polisi Rheoli Presenoldeb](#) i gael rhagor o fanylion.

Efallai bydd yn ofynnol i chi ofalu am ddibynnydd sydd wedi dal y feirws. Mae absenoldeb brys ar gael yn achos achosion brys dilys na ellir eu rhagweld yn ymwneud â dibynnyddion. Darllenwch y [Polisi Absenoldeb](#) i gael rhagor o fanylion ynghylch cymhwysedd a hyd cyfnodau o absenoldeb.

Os byddwch chi'n ymneilltuo ond heb ddatblygu symptomau'r feirws ac rydych chi wedi defnyddio eich holl hawl absenoldeb brys, bydd eich absenoldeb yn cael ei ystyried yn absenoldeb â thâl yn sgil gorfod ymneilltuo o ganlyniad i goronafeirws.

Os bydd gennych chi gyfrifoldebau gofalu dirybudd yn sgil cau sefydliadau addysgol oherwydd COVID-19, neu oherwydd salwch pobl eraill rydych chi'n gofalu amdanynt, byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn gweithio gartref a byddwch yn cael eich tâl arferol. Mae hyn yn wahanol i'n harfer bresennol, a bydd yn para trwy gydol cyfnod bygythiad COVID-19. Rydym ni'n gwerthfawrogi y gall hyn fod yn heriol, ac yn syml iawn, gofynnwn i chi wneud eich gorau glas o dan yr amgylchiadau rydych chi'n eu hwynebu.

Ni allaf i fynd i fy meddygfa i gael tystysgrif meddyg; beth ddylwn i ei wneud?

Rydym ni'n cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â cheisio cael tystysgrif meddyg ar yr adeg hon, byddwn yn hyblyg ynghylch hynny o dan yr amgylchiadau hyn. Dylai staff geisio cael tystysgrif meddyg, ac efallai y gall eich meddyg ei darparu trwy'r post neu ar ffurf electronig. Os ydych chi'n cael trafferth ceisio cael tystysgrif meddyg, neu mae angen i chi ei hanfon atom ni'n hwyr, peidiwch â phoeni; hysbyswch eich rheolwr neu'r tîm adnoddau dynol am hynny.

Pa gymorth sydd ar gael os byddaf i'n pryderu ynghylch ffrindiau neu deulu a allai fod wedi'u heffeithio gan y feirws?

Rydym ni'n cydnabod fod aelodau teulu, ffrindiau ac anwyliaid llawer o aelodau o'n cymuned yn yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio, a'n blaenoriaeth ni yw eich cynorthwyo chi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae gwasanaethau'r "Bartneriaeth Cymorth Addysg" ar gael i bob gweithiwr, a gall y bartneriaeth gynnig y gwasanaethau cymorth dilynol:

- Darpariaeth cymell, cwnsela a gwybodaeth arbenigol
- Gwasanaeth sydd ar gael dros y ffôn ac ar-lein
- Gwasanaeth sy'n cwmpasu materion personol a rhai cysylltiedig â gwaith
- Gwasanaeth cyfrinachol ac annibynnol, yn rhad ac am ddim, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos

I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, ffoniwch **08000 562 561** neu trowch at www.educationsupportpartnership.org.uk

Mae nifer o adnoddau defnyddiol ynghylch lechyd a Lles ar gael yn ein platfform Sharepoint.

Sut allaf i roi gwybod am fy absenoldeb o'r gwaith?

Dilynwch y drefn arferol ynghylch hysbysu'ch rheolwr llinell am absenoldeb os byddwch chi'n sâl.

A allaf i hawlio gwyliau blynyddol yn ystod y cyfnod hwn?

Gallwch, gallwch chi barhau i hawlio gwyliau blynyddol pan fydd angen hynny yn dilyn awdurdodiad gan eich rheolwr llinell yn y ffordd arferol.

Mae fy ngwyliau wedi cael ei ganslo; a allaf i ganslo fy ngwyliau blynyddol?

Gallwch, gallwch chi ganslo eich gwyliau blynyddol. Rydym ni'n deall ac yn derbyn o dan yr amgylchiadau y gallai hyn olygu y bydd cyfanswm y gwyliau blynyddol a gaiff eu dwyn ymlaen yn fwy na 10 diwrnod yn achos rhai aelodau o staff.

Fel rheolwr llinell, sut ddylwn i roi gwybod am absenoldeb staff?

Os bydd aelod o staff wedi datblygu symptomau'r feirws, dylid cofnodi ei (h)absenoldeb fel absenoldeb oherwydd salwch a bydd trefniadau arferol y sefydliad i roi gwybod am salwch yn gymwys.

A ddylwn i fynd i gyfarfodydd allanol?

Peidiwch â mynychu cyfarfodydd allanol. Gallwch chi ddefnyddio cyfleusterau ar-lein sydd ar gael i chi, felly manteisiwch ar bob cyfle i wneud trefniadau amgen.

Sut fydd AOC | ALW yn sicrhau tegwch o gofio fod gan bobl rolau mor wahanol ar draws y sefydliad?

Rydym yn deall y bydd anghenion ein cydweithwyr yn newid dros y misoedd nesaf ac felly mae'n amhosibl gweithredu 'un dull i bawb' Efallai y bydd rhai cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cyfrannu mwy nag eraill yn ystod y cyfnod anodd hwn, oherwydd ni fydd pob cydweithiwr yn gallu gweithredu egwyddorion gweithio gartref. Rydym yn sicr y bydd pawb yn gwneud eu gorau glas i gynorthwyo ein dysgwyr, ein teuluoedd a'n gilydd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Rwy'n pryderu am sicrwydd fy swydd; a yw fy swydd o dan fygythiad oherwydd y sefyllfa bresennol?

Rydym ni'n ymrwymo i ddiogelu dyfodol ein sefydliad a sicrwydd swyddi ein staff.

A fyddaf i'n cael fy nhalu?

Bydd staff yn cael eu talu yn ôl yr arfer yn ystod tymor 3. Yn achos tiwtor, bydd taliadau yn seiliedig ar y gweithgarwch a gynlluniwyd ar gyfer tymor 3, cyn y newidiadau yn sgil Covid-19. Nid ydym ni'n bwriadu defnyddio Cynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth ar yr adeg hon, ac ni fydd unrhyw

staff cymorth nac addysgu 'ar ffyrlo' nac yn cael eu diswyddo dros dro. O ganlyniad, dylai'r holl staff barhau i weithio gartre. Os yw tiwtoriaid yn dal i gael eu talu i fod ar gael ei weithio, efallai bydd yn ofynnol iddynt ddarparu cyrsiau ar-lein neu wneud tasgau eraill megis datblygu cyrsiau, asesu a safoni. Bydd y rheolwyr llinell priodol yn cynnig rhagor o gyfarwyddiadau ynghylch hyn. Byddwn ni wrth gwrs yn parchu anghenion gofal plant ac ymrwymadau gofal eraill ein plant ar yr adeg hon.

A oes angen parhau i gydymffurfio â gofynion GDPR ar yr adeg hon?

Rydym ni'n cydnabod na fydd modd cynnal ein harferion gwaith arferol yn sgil y ffaith y bydd y mwyafrif o staff yn cychwyn gweithio o bell. Yn sgil y ffaith fod yr achos o COVID-19 wedi achosi sefyllfa ddigyffelyb, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cadarnhau fod rhywfaint o newidiadau i arferion gwaith arferol yn dderbyniol. Fodd bynnag, mae'n dal yn ofynnol i ni fel Rheolydd Data cyfrifol i barhau i weithio yn unol â safon sy'n cynnal diogelwch gwybodaeth bersonol. I'r perwyl hwn, mae'n rhaid i staff barhau i weithredu'r un safonau a phroffesiynol ynghylch cydymffurfio â gofynion GDPR pan fyddant yn gweithio o bell, hynny yw, dylent sicrhau fod unrhyw weithgareddau cysylltiedig â gwaith yn cael eu cyflawni gan ddefnyddio ein platfformau diogel. Os bydd angen i staff gludo dogfennaeth sy'n cynnwys manylion personol, oherwydd yr amgylchiadau personol, bydd yn rhaid gwneud hynny â chymeradwyaeth eich rheolwr llinell ac mewn modd cyfrifol er mwyn rheoli'r risg o unrhyw fynediad diawdurdod at ddata. Argymhellir y dylid gwneud cyn lleied ag y bo modd o gludo dogfennaeth o'r fath, a dylid gwneud hynny ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r busnes yn unig.

Sut ddylwn i gyfathrebu â dysgwyr, partneriaid a phartion allanol eraill?

Mae ein swyddfeydd ar gau, felly derbynnir y bydd angen i rai aelodau o staff ddefnyddio ffonau personol i gysylltu â'n rhanddeiliaid. Wrth gwrs, mae hyn yn groes i'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn arferion gorau. Fodd bynnag, mae angen gwneud newidiadau synhwyrol a rhesymol i'n harferion gwaith arferol er mwyn sicrhau y gall ein busnes beunyddiol barhau.

- Dylai unrhyw gyfathrebu fod at ddibenion proffesiynol a dylid ei gyfyngu i'r hyn sy'n ofynnol yn unig, e.e. er mwyn rhannu gwybodaeth neu i ofyn am gyfeiriad e-bost fel y gallwch chi barhau i gyfathrebu gan ddefnyddio eich cyfrif e-bost AOC|ALW diogel.
- Mae negeseuon testun a galwadau uniongyrchol yn well, ac yn ddelfrydol, dylech guddio eich rhif (nodwedd sydd ar gael ar lawer o ffonau modern).
- Peidiwch â defnyddio apiau negeseua gan unrhyw drydydd parti, e.e. WhatsApp, Messenger, Viber ac ati, ar gyfer unrhyw gyfathrebu o'r fath. Ni chaniateir 'sgyrsiau mewn grwpiau' gyda chohortau o ddysgwyr gan ddefnyddio adnoddau o'r fath.
- Peidiwch â chadw manylion rhifau ffonau symudol dysgwyr ar eich dyfais.
- Peidiwch â gofyn am na rhannu unrhyw wybodaeth bersonol. Ystyrir fod gwybodaeth bersonol yn unrhyw beth a all ddatgelu pwy yw unigolyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mae'n annhebygol iawn y cewch chi unrhyw ohebiaeth y byddid yn ei hystyried yn annymunol/digroeso, ond os bydd hynny'n digwydd, hysbyswch eich rheolwr llinell a/neu eich swyddog diogelu fel y bo'n briodol a chyn gynted ag y bo modd.

Rwy'n dymuno helpu fy mherthnasau a fy nghymdogion sy'n ymneilltuo; beth ddylwn i ei wneud?

Rydym ni'n gefnogol iawn o unrhyw un sy'n gallu helpu pobl eraill yn ystod y cyfnod hwn, os yw'n ddiogel gwneud hynny. Caiff ein tudalen gwybodaeth ac adnoddau ei diweddarau'n rheolaidd, ac mae'n cynnig cyngor defnyddiol ynghylch sut gallwch chi helpu pobl eraill sy'n ymneilltuo, yn enwedig y sawl sydd dros 70 mlwydd oed a/neu'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn i chi gadw at ganllawiau'r Llywodraeth wrth helpu pobl eraill.

Gall helpu pobl eraill olygu gwneud pethau iddynt yn ystod fy niwrnod gwaith, megis siopa neu fynd i nôl moddion ar bresgripsiwn. A allaf i wneud hyn?

Gallwch, o fewn rheswm. Ceir cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau gwaith a phethau eraill sy'n mynd â'ch amser, a buasem ni'n cefnogi trefniadau gweithio hyblyg rhesymol i'ch galluogi chi i helpu pobl eraill. Yn syml, gofynnwn i chi wneud eich gorau glas i gydbwyso cyfrifoldebau. Cysylltwch â'ch rheolwr llinell i gadarnhau unrhyw drefniadau.

Canllawiau ychwanegol ar gyfer staff addysgu ynghylch canslo cyrsiau

A gaiff fy nghyrsiau eu canslo?

Mae addysgu wyneb yn wyneb wedi'i atal nes clywir yn wahanol.

Mae fy nghyrsiau wedi'u canslo, beth ddylwn i ei wneud?

Gall dysgwyr sy'n cyfranogi mewn rhai cyrsiau i ennill cymwysterau gyflawni elfennau o ddysgu hunangyfeiriedig trwy gyfrwng ein platfform Moodle.

Diolch yn fawr iawn i'r rhain ohonoch chi sydd eisoes wedi cychwyn hwyluso gweithgareddau ar-lein/o bell gyda'ch dysgwyr. Er mwyn hwyluso dull cyson o wneud hyn, arhoswch nes cewch chi ragor o gyngor gan eich Rheolwr Rhanbarthol neu Swyddog Cyflawni'r Cwricwlwm cyn parhau i wneud hyn.

Bydd hyfforddiant a chanllawiau ar gael ar gyfer tiwtoriaid ynghylch y defnydd o Moodle i alluogi tiwtoriaid i hwyluso'r gweithgaredd hwn ar gyfer dysgwyr. I'n cynorthwyo â'n DPP digidol, rydym ni wedi datblygu adran yn Moodle sy'n cynnig amrywiaeth o adnoddau a dolenni perthnasol, a gobeithio y byddant yn ddefnyddiol i chi. Mae hyn yn cynnwys y cwrs 'Defnyddio Moodle', sydd wedi cael ei ddatblygu'n ddiweddar ac sydd ar gael ym Mharth Staff Moodle.

Yn dilyn canslo cyrsiau, efallai y gofynnir i diwtoriaid gynorthwyo â gweithdrefnau gweinyddol neu ansawdd, h.y. llunio llyfrynnau asesu neu sicrhau ansawdd yn fewnol os ydynt yn gymwys i wneud hynny, neu barhau â gwaith Datblygiad Personol Parhaus (DPP) ar-lein. Bydd Rheolwr y Cwricwlwm yn darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch tasgau y dylid eu cwblhau.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch canslo cyrsiau, neu hwyluso gysgu hunangyfeiriedig o bell, cysylltwch â'ch Swyddog Cyflawni'r Cwricwlwm yn gyntaf.

A fyddaf i'n cael fy nhalu am gyrsiau a gaiff eu canslo?

Bydd tiwtoriaid yn cael eu talu am yr holl gyrsiau sydd wedi'u cytuno a fydd yn cael eu canslo oherwydd rhesymau yn ymwneud â coronafeirws.

Dyma fanylion tâl mis Mai:

- 1) Yn achos unrhyw hawliadau sydd heb gael eu hanfon atom ni cyn i gyrsiau gael eu canslo, dylai tiwtoriaid gyflwyno'r hawliadau hyn yn electronig neu dynnu llun ohonynt a'u he-bostio at gyfeiriad e-bost y rhanbarth er mwyn hawlio tâl am yr union oriau a addysgwyd a'r milltired. Dylai tiwtoriaid ddal eu gafael ar gopiau papur ac unrhyw lyfrynnau asesu ac ati.
- 2) Bydd rhanbarthau/y gyflogres yn ystyried oriau cynlluniedig mis Ebrill, i bennu beth ddylai gael ei dalu am fis Ebrill, a byddant yn talu am yr oriau hynny sydd wedi'u canslo.

- 3) Ni thelir milltired am gyrsiau sydd wedi'u canslo oherwydd ni fyddir yn mynd i gostau.
- 4) Byddwn yn ymdrin yn yr un modd â'r hyn a nodir uchod yn achos gweddill yr gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd.

Ble ddylwn i anfon fy ffurflenni hawlio cyflog?

Sganiwch neu tynnwch lun o unrhyw ffurflenni hawlio cyflog ac e-bostiwch hwy at eich Gweinyddwr Cymorth Rhanbarthol.

Ble ddylwn i anfon gwaith papur fy nghysiau?

Daliwch eich gafael yng ngwaith papur eich cysiau nes cewch chi eich hysbysu'n wahanol. Daliwch sylw: ni ddylid ar unrhyw gyfrif ddinistrio unrhyw waith papur ar gyfer cysiau sydd wedi cael eu canslo.

Byddaf yn addysgu ar gyfer mwy nag un rhanbarth; pwy ddylwn i ei ffonio os bydd gennyf i ymholiad?

Dylai tiwtoriaid sy'n addysgu mewn mwy nag un rhanbarth gysylltu â tîm yn y rhanbarth ble cynhelir y cwrs y bydd ganddynt ymholiad yn ei gylch.

Canllawiau ar gyfer Dysgwyr

A gaiff fy nghysiau eu canslo?

Mae'r holl addysgu wyneb yn wyneb wedi'i atal nes clywir yn wahanol.

Fel dysgwr, a allaf i gyfranogi yn fy astudiaethau o bell?

Gall dysgwyr sy'n cyfranogi mewn rhai cyrsiau i ennill cymwysterau gyflawni elfennau o ddysgu hunangyfeiriedig trwy gyfrwng ein platfform Moodle. Bydd eich tiwtor yn darparu cymorth ar-lein gan ddefnyddio'r cyfleusterau sgwrsio a fforwm ble bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Rydym ni wrthi ar hyn o bryd yn datblygu rhagor o gyfleoedd dysgu ar-lein. Gallwch ddisgwyl cael rhagor o ddiweddariadau gan y sefydliad neu eich tîm rhanbarthol.

Ar hyn o bryd, ni all cyrsiau sydd heb eu hachredu gael eu cynnal o bell, ond byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn agos.

Os byddaf i'n sâl, neu os bydd aelod o fy rheulu yn sâl, beth ddylwn i ei wneud?

Mae'r gwefannau dilynol gan y Llywodraeth a sefydliadau lechyd y Cyhoedd yn darparu'r cyngor a'r arweiniad diweddaraf:

<https://www.gov.uk/government/topical-events/coronavirus-covid-19-uk-government-response>

<https://phw.nhs.wales/>

Adnoddau hunanasesu'r GIG:

<https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/SelfAssessments/symptomcheckers/?ScName=CoronaVirusCOVID19&SCTId=175>

Allaf i ymweld ag un o swyddfeydd AOC | ALW?

Mae ein holl swyddfeydd bellach ar gau i ymwelwyr allanol.

Mae arnaf i angen postio rhywbeth at Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales; ble ddylwn i anfon hynny?

Mae holl swyddfeydd AOC | ALW bellach wedi cau hyd nes hysbysir yn wahanol. Daliwch sylw: efallai na fyddwn ni wedi cael gohebiaeth sydd wedi'i hanfon i'n swyddfeydd.

Os ydych chi wedi postio rhywbeth na fyddai wedi'n cyrraedd ni cyn 23 Mawrth ac mae angen sylw brys iddo, e-bostiwch ni yn info@adultlearning.wales

Os oes angen i chi anfon rhywbeth atom ni ar frys, y ffordd orau o wneud hyn yw trwy sganio neu dynnu llun a'i e-bostio i gyfeiriad e-bost cyffredinol y sefydliad, sef info@adultlearning.wales

A fydd dosbarthiadau Canghennau yn parhau?

Yn unol â phenderfyniad AOC | ALW' i atal yr holl addysgu wyneb yn wyneb nes clywir yn wahanol, rydym ni hefyd yn cynghori y dylai'r holl ddosbarthiadau a drefnir gan ganghennau gael eu hatal ar yr adeg hon. Mae rhagor o wybodaeth gael gan gynrychiolydd eich Cangen.

Sut allaf i brynu bwyd/bwydo fy hun a chynnal cyflenwadau yn ystod fy nghyfnod o ymneilltuo?

Fe wnaiff y rhan fwyaf o archfarchnadoedd y DU ddanfôn bwyd neu eitemau eraill am ddim neu am ffi fechan iawn. Gallwch chi archebu ar-lein trwy gyfrwng apiau symudol penodol neu wefannau archfarchnadoedd.

Pa gymorth fydd ar gael i mi yn ystod fy nghyfnod o hunanynysu?

Gall hunanynysu fod yn brofiad dirdynol, hyd yn oed am gyfnodau byr. Dylech chi barhau i gyfathrebu'n rheolaidd â ffrindiau a theulu yn ystod y cyfnod hwn.

Os byddwch chi'n credu bod eich iechyd meddwl yn dioddef o ganlyniad i'r sefyllfa, neu os na fyddwch chi'n teimlo'n ddiogel, dylech chi gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr ar **03300 580845**.

Rwy'n bwriadu teithio oddi allan i'r DU, neu mae aelod o fy nheulu yn bwriadu teithio. A oes angen i mi hysbysu unrhyw un?

Mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi dweud y dylai pawb atal unrhyw deithio diangen.

Pwy allaf i droi ato i siarad os byddaf i'n pryderu am ffrind neu cyd-fyfyriwr?

Rydym ni'n cydnabod fod aelodau teulu, ffrindiau ac anwyliaid llawer o aelodau o'n cymuned yn yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio, a'n blaenoriaeth ni yw eich cynorthwyo chi yn ystod y cyfnod hwn.

Os byddwch chi'n credu fod arnoch chi angen cymorth ychwanegol, cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr ar **03300 580845**.

Mae perthynas neu ffrind yn un o ddysgwyr Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, ac rwy'n bryderus am ei (h)iechyd a'i (l)les. Ble allaf i gael gwybodaeth?

Mae sicrhau diogelwch a lles ein dysgwyr a'n staff yn flaenoriaeth, ac rydym ni'n monitro sefyllfa'r Coronafeirws wrth iddo ddatblygu. Rydym ni'n dilyn y cyngor diweddaraf gan y [Swyddfa Dramor a Chymanwlad](#), [Sefydliad Iechyd y Byd](#) ac [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#), ac rydym ni wedi rhannu'r

cyngor hwnnw â'n staff a'n dysgwyr.

Mae gen i fisa gyfredol ar gyfer y DU sydd ar fin dibennu. Beth ddylwn i ei wneud?

I gael wybodaeth am fisâu ar gyfer y DU a'ch statws mewnfudo, dylech chi gysylltu â Llinell Gymorth y Swyddfa Gartref ynghylch Coronafeirws a Mewnfudo – Rhif ffôn: 0800 678 1767 (o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, 9yb i 5yh). Bydd yr holl alwadau am ddim. E-bostiwrch: CIH@homeoffice.gov.uk

